

# Amser Egwyl/Chwarae - Arolwg Ciplun o Blant a Phobl Ifanc yng Nghymru

## Comisiynydd Plant Cymru

## Mai 2024

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

## **Cyflwyniad**

Yn ystod mis Mai 2024 buon ni’n gofyn barn plant a phobl ifanc ar amser egwyl/chwarae yn yr ysgol.

Roedd yr arolwg yn rhan o gyfres o gwestiynau ar wahanol bynciau rydyn ni’n eu gofyn i blant a phobl ifanc bob mis, dan yr enw Materion Misol, er mwyn clywed eu barn ar amrywiaeth o bethau. Cafodd ei rannu’n uniongyrchol â’r holl ysgolion sy’n rhan o’n cynlluniau hawliau plant ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, yn ogystal â grwpiau cymunedol.

Fel rhan o becyn yr arolwg, dangoswyd fideo i’r plant a’r bobl ifanc, yn cyflwyno’r pwnc, a gofynnwyd iddyn nhw ystyried rhai cwestiynau am amser egwyl/chwarae yn yr ysgol, gan gynnwys beth roedden nhw’n ei fwynhau, pam roedden nhw’n meddwl bod amser egwyl/chwarae yn bwysig, a pham gallai fod rhaid iddyn nhw ei golli. Yn yr amlinelliad ar gyfer y sesiwn, roedden ni’n awgrymu, ar ôl gweld y fideo, y dylai plant a phobl ifanc gael amser i drafod eu barn gyda’i gilydd cyn ateb yr arolwg.

Roedd gan ysgolion ddau opsiwn ar gyfer cwblhau’r arolwg; gallai plant a phobl ifanc ei wneud yn annibynnol, neu gallai athro gwblhau’r arolwg ar ran y grŵp, gan ateb set wahanol o gwestiynau i roi trosolwg o’r drafodaeth.

Atebodd cyfanswm o 1290 o blant a phobl ifanc yr arolwg. Bu 1020 o blant eraill yn cymryd rhan mewn grwpiau, gydag athrawon a gweithwyr ieuenctid yn cyflwyno crynodeb o’u barn. Fe gawson ni ymatebion o 21 o’r ardaloedd awdurdod lleol, a bu ystod eang o oedrannau’n cymryd rhan, o blant dan 7 oed, i rai hyd at 17 oed.

Datblygwyd y cwestiynau gan dîm staff profiadol y Comisiynydd ar sail themâu oedd wedi dod i’r amlwg mewn ymarferion ymgysylltu blaenorol gyda phlant, pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol, a chan ddilyn cyngor Chwarae Cymru.

## Cwestiynau i'r plant a bobl ifanc

**Wyt ti'n mwynhau amser chwarae/egwyl yn yr ysgol?**

Ydw (1213) - 96%

Nac ydw (70) - 6%

Os oedden nhw'n dweud eu bod yn mwynhau amser chwarae/egwyl, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc:

**Beth wyt ti'n mwynhau?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Treulio amser gyda ffrindiau
- Cymryd rhan mewn chwaraeon
- Ymlacio a chael hoi o'r gwaith ysgol

Os oedden nhw'n dweud eu bod nhw ddim yn mwynhau amser chwarae/egwyl, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc:

**Pam dwyt ti ddim yn mwynhau?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Dyw e ddim yn llawer o hwyl / dim bwyd i'w wneud
- Dim digon o amser
- Mae'n ddiflas

**Wyt ti'n meddwl bod amser chwarae / egwyl yn bwysig?**

Ydw (1207) - 95%

Nac ydw (65) - 5%

Os oedden nhw'n meddwl bod amser chwarae/egwyl yn bwysig, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc:

**Pam wyt ti'n meddwl bod e'n bwysig?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Cael awyr iach
- Cael egwyl o'r gwersi / o'r ystafell ddosbarth
- Treulio amser gyda ffrindiau

**Wyt ti byth yn gorfod colli amser chwarae / egwyl?**

Nac ydw (685) - 54%

Ydw (593) - 46%

Os oedden nhw'n dweud eu bod wedi gorfod colli amser chwarae/egwyl, gofynnwyd i'r plant a'r bobl ifanc:

**Pam mae rhaid i ti golli amser chwarae/egwyl weithiau? Sut mae hynny'n gwneud i ti deimlo?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Defnyddio fel canlyniad / cosb
- Teimlo'n drist, yn grac ac yn rhwystredig
- I ddal i fyny gyda gwaith oedd heb ei orffen

**Beth fyddai'n gwneud amser chwarae/egwyl yn well i ti?**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Mwy o amser
- Mwy o offer chwarae
- Mwy o chwaraeon a gêmau

## Cwestiynau i athrawon

Lle roedd athrawon yn ymateb ar ran grŵp, roedd eu hatebion yn adlewyrchu'r atebion a roddwyd gan y plant yn uniongyrchol. Roedd athrawon hefyd yn cael cyfle i nodi eu persbectif a'u profiadau eu hunain yn y cwestiwn canlynol:

**Dywedwch wrthyn ni am unrhyw rwystrau rydych chi'n eu hwynebu o ran rhoi'r amser chwarae/egwyl mae arnyn nhw ei angen i'r disgyblion**

Dyma themâu'r atebion mwyaf cyffredin:

- Diffyg adnoddau ac offer
- Cyfyngiadau amser
- Pwysau cysylltiedig ag addysgu a chyflwyno'r cwricwlwm

## Diweddglo

- Mae chwarae yn rhan hanfodol o ddatblygiad plant, ac yn hawl ddynol benodol o dan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 31). Mae'n eglur bod plant a phobl ifanc yn sylweddoli pwysigrwydd amser chwarae ac egwyl yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi amser chwarae ac egwyl am amrywiaeth eang o resymau.
- Gan adleisio ymchwil ar y mater yma, dywedodd bron hanner y plant a fu'n rhan o'r arolwg eu bod weithiau'n gorfod colli amser chwarae, fel arfer oherwydd eu bod heb orffen gwaith neu o ganlyniad i ymddygiad gwael. Roedd hynny'n gwneud iddyn nhw deimlo'n drist, yn grac ac yn rhwystredig.
- Pan holwyd athrawon am y rhwystrau oedd yn eu hatal rhag darparu'r amser chwarae roedd arnyn nhw ei angen i blant, soniodd athrawon am ddiffyg adnoddau ac amser, a phwysau cysylltiedig â chyflwyno'r cwricwlwm. Roedd y plant hefyd am gael mwy o amser ac offer pan gawson nhw eu holi ynghylch gwneud amser chwarae'n well.

Mae adnoddau ac adroddiadau eisoes yn bodoli i helpu athrawon i hybu'r hawl i chwarae yn eu hysgol. Cewch ddolenni i'r adnoddau a'r adroddiadau hyn ar y dudalen yma ar wefan Chwarae Cymru.